CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	**Cyngor**
Dyddiad y Cyfarfod:	**15 Rhagfyr 2022**
Teitl:	**Penodi'r Cynghorydd Rhodri Evans i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**
Pwrpas yr adroddiad:	**I nodi'r penodiad**
Er:	**Gwybodaeth**
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	**AMH**

1. Cefndir
Ar 20 Hydref 2022, penderfynodd y Cyngor enwebu cynrychiolwyr i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn unol â Gorchmynion Sefydlog Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (para 1.1.4) sy'n gwneud y ddarpariaeth ganlynol:

1.1 Aelodaeth o'r Bwrdd Iechyd Lleol
1.1.1 Ni fydd aelodaeth y Bwrdd Iechyd Lleol yn fwy nag 20 aelod sy'n cynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd, aelodau nad ydynt yn swyddogion (a benodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), y Prif Weithredwr (a benodir gan y Bwrdd gyda chyfranogiad y Prif Weithredwr, GIG Cymru) ac aelodau'r swyddogion (a benodir gan y Bwrdd).

Aelodau Nad ydynt yn Swyddog [i gael eu hadnabod ac Aelodau Annibynnol]
1.1.4
Cyfanswm o 9, a benodwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys: aelod etholedig o'r awdurdod lleol y mae ei ardal yn dod o fewn ardal y Bwrdd Iechyd lleol; aelod cyfredol o weithwyr sefydliad Trydydd Sector o ardal y Bwrdd Iechyd lleol; swyddog undeb llafur; person sy'n dal swydd mewn Prifysgol sy'n gysylltiedig ag iechyd; a phum Aelod Annibynnol arall sydd â phrofiad ac arbenigedd rhyngddynt ym meysydd; y gyfraith; cyllid; stadau; Technoleg Gwybodaeth; a gwybodaeth a dealltwriaeth gymunedol.

Gan fod apwyntiadau Aelodau Annibynnol yn benodiadau Gweinidogol, roedd y broses enwebu a fabwysiadwyd yn gofyn am ddau enwebiad gan bob Awdurdod Lleol sy'n bodloni'r meini prawf; a oedd wedyn yn destun proses ddethol a chyfweliad gydag apwyntiad terfynol yn cael ei wneud gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ar 11 Tachwedd 2022, derbyniodd y Cynghorydd Rhodri Evans gadarnhad gan Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ei benodiad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i wasanaethu fel Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol) am dymor o 4 blynedd.

	Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam	Does dim angen
	Crynodeb:	
Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	**Hirdymor:**	Sicrhau cynrychiolaeth ar ran trigolion Ceredigion ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda dros y blynyddoedd nesaf
	Cydweithio:	Cydweithio gydag Aelodau eraill y Cyngor i sicrhau bod yr ardal yn ei chyfanrwydd yn cael ei chynrychioli.
	Cynnwys:	Bydd gwybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Sir Ceredigion a fydd yn cadarnhau'r Aelodau a enwebwyd i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
	Atal:	Dim.
	Integreiddio:	Drwy weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i sicrhau'r canlyniadau gorau i'n trigolion.
Argymhelliad / Argymhellion:	**I'r Cyngor nodi penodiad Cynghorydd Rhodri Evans i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**	
Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:	**I sicrhau cynrychiolaeth briodol gan Gyngor Sir Ceredigion yn unol â threfniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.**	
Trosolwg a Chraffu:	AMH	
Fframwaith Polisi:	AMH	
Amcanion Llesiant Corfforaethol:	Cyfrannu at bob un o'r Blaenoriaethau Corfforaethol: • Hybu'r Economi, Cefnogi Busnesa a galluogi cyflogaeth • Creu Cymunedau Gofalgar ac ach • Darparu'r Dechrau gorau mewn Bywyd a Galluogi Pobl o Bob Oed i Ddysgu • Creu Cymunedau Cynaliadwy Gwyrdd sydd wedi'u Cysylltu'n Dda â'i Gilydd	
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim – o fewn cyllid y gwasanaeth	
Goblygiadau cyfreithiol:	Dim	
Goblygiadau staffio:	Dim – o fewn adnoddau'r gwasanaeth	

Goblygiadau eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Dim
Pwerau Statudol:	AMH
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Llythyr apwyntiad

Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Lowri Edwards Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)
Swyddog Adrodd:	Nia Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad:	30/11/2022